

Pembrolizumab â chemotherapi permetrexed a phlatinwm ar gyfer cancer metastatig yr ysgyfaint di-gennog lle nad yw'r celloedd yn fach, a heb ei drin

10 Ionawr 2019

Mae pembrolizumab (Keytruda) â chemotherapi permetrexed a phlatinwm ar gael drwy'r [Gronfa Cyffuriau Canser](#). Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer cancer metastatig yr ysgyfaint di-gennog lle nad yw'r celloedd yn fach, a heb ei drin, ymhlith oedolion os bydd y canlynol yn wir:

- nad oes gan eu tiwmorau dderbynnydd ffactor twf epidermol (EGFR) – na mwtadiadau cinas lymffoma anaplastig (ALK)-positif.
- caiff pembrolizumab ei atal ar ôl 2 flynedd o driniaeth barhaus neu'n gynt os yw'r afiechyd wedi datblygu

Mae rhagor o dystiolaeth ar pembrolizumab â chemotherapi permetrexed a phlatinwm yn cael ei chasglu, hyd at fis Mehefin 2019. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddarau'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael pembrolizumab ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3222-1